Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru
Kathryn Chamberlain, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

17 Gorffennaf 2023

Annwyl Adrian a Kate,

**Hysbysiad o derfynau amser ar gyfer archwilio**

Ysgrifennaf yn dilyn adroddiad y Pwyllgor ar ei waith craffu blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru ym mis Tachwedd 2022. Byddwch yn cofio inni wneud yr argymhelliad a ganlyn yn sgil ein hystyriaeth o'r oedi sylweddol o ran gosod Cyfrifon Cyfunol 2020-21 Llywodraeth Cymru:

> **Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Archwilydd Cyffredinol yn hysbysu Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn ffurfiol, yn ysgrifenedig, os na all gwblhau archwiliad o fewn y terfyn amser statudol o bedwar mis.

Gwnaethom edrych eto ar gwmpas yr argymhelliad hwn yn ein cyfarfod ar 21 Mehefin gan ein bod wedi bwriadu ymestyn yr argymhelliad i gynnwys archwilio cyrff eraill. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud gwaith archwilio mewn dros 800 o gyrff, a nodwn fod statws cyrff yn y gwahanol sectorau, a'r terfynau amser ar gyfer eu harchwilio, yn amrywio.

Wedi ystyried y mater yn ofalus, cytunwyd i ofyn inni gael ein hysbysu pan na fydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gallu cwblhau'r gwaith o archwilio'r cyrff canlynol o fewn y terfyn amser statudol sy'n gymwys iddynt (neu erbyn diwedd mis Tachwedd lle nad yw terfyn amser statudol yn berthnasol):

- Cyrff a ariennir yn uniongyrchol;
- Llywodraeth Cymru a chyfrifon cysylltiedig;
- Awdurdod Cyllid Cymru;
- Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru; a
- Chyrff y GIG.

Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth bresennol, rydym wedi rhestru yn yr atodiad y cyrff hynny a fydd yn ddarostyngedig i'r trefniant adrodd hwn a'u dyddiadau cau priodol ar gyfer cyflwyno adroddiad.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Gobeithio bod hyn yn rhoi eglurder ynghylch cwmpas ein hargymhelliad a'r weithdrefn ar gyfer cyflwyno adroddiad mewn perthynas â chyfrifon hwyr cyrff a archwilir.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Mark Isherwood AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Atodiad

| Corff a archwilir | Terfyn amser |
|---|---|
| Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol | |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Archwilio o fewn pedwar mis i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru neu o fewn pedwar mis i 30 Tachwedd |
| Comisiwn y Senedd | Archwilio o fewn pedwar mis i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru neu o fewn pedwar mis i 30 Tachwedd |
| Llywodraeth Cymru a chyfrifon cysylltiedig | |
| Cronfa Gyfunol Cymru | Archwilio o fewn pedwar mis i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru neu o fewn pedwar mis i 30 Tachwedd |
| Cyfrif Adnoddau Llywodraeth Cymru | Archwilio o fewn pedwar mis i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru neu o fewn pedwar mis i 30 Tachwedd |
| Cyfrif Ardrethi Annomestig Cymru | Dim terfyn amser statudol (adrodd os na chwblheir erbyn 30 Tachwedd) |
| Cyfrifon cryno'r GIG | Dim terfyn amser statudol (adrodd os na chwblheir erbyn 30 Tachwedd) |
| Awdurdod Cyllid Cymru | |
| Awdurdod Cyllid Cymru | Archwilio o fewn pedwar mis i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru neu o fewn pedwar mis i 31 Awst |

| | |
|---|---|
| Datganiad Trethi Cymru | Archwilio o fewn pedwar mis i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru neu o fewn pedwar mis i 31 Awst |
| Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | Terfyn amser archwilio penodedig - 31 Ionawr |
| Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Llais) | Archwilio o fewn pedwar mis i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru neu o fewn pedwar mis i 31 Awst |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | Dim terfyn amser statudol (adrodd os na chwblheir erbyn 30 Tachwedd) |
| Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru | Archwilio o fewn pedwar mis i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru neu o fewn pedwar mis i 31 Awst |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | Terfyn amser archwilio penodedig - 31 Ionawr |
| Amgueddfa Cymru | Terfyn amser archwilio penodedig - 31 Ionawr |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Archwilio o fewn pedwar mis i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru neu o fewn pedwar mis i 31 Awst |
| Cymwysterau Cymru | Archwilio o fewn pedwar mis i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru neu o fewn pedwar mis i 31 Awst |
| Gofal Cymdeithasol Cymru | Archwilio o fewn pedwar mis i gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru neu o fewn pedwar mis i 31 Awst |
| Cyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru) | Dim terfyn amser statudol (adrodd os na chwblheir erbyn 30 Tachwedd) |

<table>
<tr><th colspan="2">Y GIG</th></tr>
<tr><td>Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan</td><td rowspan="12">1. Terfynau amser gweinyddol y cytunir arnynt yn flynyddol gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer archwilio cyfrifon.<br><br>2. Terfyn amser blynyddol diweddarach ar gyfer adroddiad blynyddol llawn yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru.</td></tr>
<tr><td>Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr</td></tr>
<tr><td>Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a’r Fro</td></tr>
<tr><td>Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf Morgannwg</td></tr>
<tr><td>Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda</td></tr>
<tr><td>Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys</td></tr>
<tr><td>Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe</td></tr>
<tr><td>Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre</td></tr>
<tr><td>Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru</td></tr>
<tr><td>Iechyd Cyhoeddus Cymru</td></tr>
<tr><td>Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)</td></tr>
<tr><td>Iechyd a Gofal Digidol Cymru</td></tr>
</table>